

# Gweithiwr Cymdeithasol - Lles ac Adfer

Swyddfa yn Ewlo, Sir y Fflint a gweithio'n hybrid

Llawn amser 37 awr

Newydd Gymhwyso £34,314-£37,035

Lefel 3 (wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) £37,938- £40,476

Lefel 3 gyda chymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy £45,718 - £48,710

A ydych chi newydd gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol, â phrofiad yn y maes iechyd meddwl ac yn chwilio am gyfle newydd cyffrous a chreadigol o fewn Sir y Fflint?  Mae ein tîm iechyd meddwl wedi arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio, mae gennym bartneriaethau gwych gyda'r trydydd sector, ac rydym yn gweithredu mewn modd arloesol.  Mae cyfle wedi codi o fewn y tîm, ac os ydych chi'n chwilio am swydd yn y maes gwaith cymdeithasol sy'n mynd y tu hwnt i asesu a chynllunio gofal, dyma'r swydd i chi!

Mae'r rôl greadigol hon yn cynnwys cefnogi pobl i gynnal / gwella eu lles meddyliol am y camau cynnar a hyrwyddo adferiad trwy gyfrannu at waith y Canolbwynt y Fflint, cydweithio gydag unigolion a grwpiau, Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol gyda phobl sydd â ffactorau yn effeithio ar eu lles meddyliol. Mae'r swydd hon yn ceisio nodi beth sy'n bwysig i bobl er mwyn hybu eu hiechyd cyffredinol ac atal dirywiad pellach.

Bydd angen i ddeiliad y swydd fod wedi ei gysylltu'n dda ag asedau cymunedol ac yn ceisio gwneud cysylltiadau â'r rhain i gynnig datrysiadau mewn partneriaeth ag unigolion.  Mae'r rôl yn cynnwys gallu gweithio'n hyblyg ac yn greadigol, ac ar eich liwt eich hun fel y bo'n briodol.  Bydd dull gweithredu'r tîm rheoli yn darparu rheolaeth a chefnogaeth i'ch helpu i feddwl mewn modd agored, a thîm cefnogol o gydweithwyr profiadol i'ch helpu i deimlo'n gartrefol yn ein plith.   Rydym yn darparu ystod gynhwysfawr o hyfforddiant unigryw i'ch helpu i ddatblygu yn eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol, a byddwn yn eich helpu i gwblhau eich hyfforddiant Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystod eich cyfnod â ni.

Yn ogystal â hynny, rydym yn cynnig pecynnau gwyliau a phensiwn hael, gostyngiadau corfforaethol gwych gyda manwerthwyr ar draws y DU, ac ethos cyflogwr sy'n canolbwyntio ar gydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.

I ddarganfod mwy am y swydd hon, ymgeisiwch nawr neu cysylltwch â Rhian neu Jo gan ddefnyddio'r manylion isod i gael sgwrs anffurfiol am beth allai gyrfa o fewn y tîm Lles ac Adfer ei olygu i chi.


Rhian Evans, Rheolwr Tîm, Adnoddau Iechyd Meddwl   rhian.evans@flintshire.gov.uk

Jo Taylor, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Anabledd ac Iechyd Meddwl jo.taylor@flintshire.gov.uk